

papur priorddy



**RHO IM YR HEDD, NA WYR Y BYD AMDANO,
HEDD, NEFOL HEDD, A DDAETH DRWY DDWYFOL LOES;
PAM FYDDO'R DON AR F'ENAIID GWAN YN CURO,
MAE'N DAWEL GYDA'R IESU WRTH Y GROES.**

*Elfed (1860-1953)
Caneuon Ffydd: 787*

*Dewiswyd gan y Dr Myfanwy Jones. Gweler y rheswm am y
dewis y tu mewn*

**Rhifyn 320
PAPUR MAWRTH 2019**

O fy nesg....

Neu efallai y byddai'n gywirach dweud '**ar fy nesg.**'



Wrth eistedd yma yn fy stydi yn disgwyl ryw fath o ysbrydoliaeth o rywle ar gyfer paratoi gair i'ch cyfarch ym *Mhapur Priordy* a'r *Ddolen* y mis hwn, mae fy llygaid yn crwydro'n awchus ar hyd arwynebedd fy nesg yn union fel petawn i'n disgwyl neges neu bregeth i neidio ataf o grombil y naddwr pensiliau, neu o olion fy mhaned te diwethaf sy'n crystaleiddio'n neis iawn ar waelod y mwg!

Ac wrth chwilio a disgwyl, sylwaf fod fy nesg yn gartref i nifer o symbolau arbennig, a phob un ohonynt ag arwyddocâd arbennig.



Dyma'r cyntaf ohonynt, sef logo **Dydd Gweddi'r Byd** sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn ar y Gwener cyntaf ym mis Mawrth. Erbyn i chi dderbyn y papur hwn, bydd y dydd gweddi wedi mynd heibio am flwyddyn arall, a diolch i gynrychioliwyr Y Priordy am gymryd rhan yn yr oedfa leol yn

Eglwys Llanllwch fore Gwener. Cynlluniwyd y logo hwn ym 1982. Mae'r cynllun yn cynnwys pedwar saeth yn arwain o bedwar pwynt y cwrpas i greu croes, ac ym mhob saeth mae ffigwr o berson yn penlinio i weddio. Mae'r groes Geltaidd a'r cylch yn cynrychioli undod byd-eang rhwng pobl â'i gilydd.



A dyma un arall sydd wrth fy mhenelin, sef logo **Undeb yr Annibynwyr**. Mae logo'r Undeb yn dangos croes gyda Beibl agored yn ei chanol ac allwedd yn gorwedd drosto.

Mae'r allwedd yn cyfleu mai Gair Duw yn y Beibl yw'r cyfrwng i ddatgloi dirgelion bywyd a chyfrinachau holl ymwneud Duw â'r byd. Trwy'r Gair hefyd mae drws yr iachawdwriaeth y mae Duw wedi'i darparu ar ein cyfer yn lesu Grist yn cael ei agor, a thrwy hynny ddrws y Deyrnas (gweler Mathew 16:19). Dynoda'r goron ddrain ar ben uchaf y groes ddioddefaint a marw aberthol lesu Grist ynghyd ag egwyddor hunanaberth, sydd mor ganolog i Gristnogaeth. Dynoda'r winwydden sy'n amgylchynu'r groes, ac sydd wedi'i gwreiddio ynddi, fod bywyd yr eglwys a'r disgybl yn dibynnu'n llwyr ar lesu Grist, y Wir Winwydden. Ar yr un pryd, mae'n gyfrwng i'n hatgoffa o'r angen i ni ddwyn ffrwyth er gogoniant Duw (gweler Ioan 15). Mae'r cylch sy'n gefndir i'r

winwydden yn cynrychioli cyfanrwydd bywyd ac yn rhoi naws Geltaidd i'r logo. Defnyddiwyd y logo'n gyntaf ar ddechrau'r 1960au (y wybodaeth o <https://annibynwyr.org/cartref/amdanom-ni/>).

A dyma un arall! **Logo BT** sy'n syllu arnaf o'r ffôn sy'n eistedd yn ddigon smala ar fy nescg. Mae logos BT wedi esblygu ar hyd y degawdau, a dadorchuddiwyd y logo presennol yn 2003. Ei enw yw '*Byd wedi ei gysylltu*' (Connected World) ac mae'n cynnwys chwe chylch o liwiau gwahanol (glas, gwyrdd, melyn, coch, pinc a phorffor) wed'u cysylltu ynghyd i greu glôb. Rwy'n credu bod pregeth fanna yn rhywle!



A dyma un bach arall cyn cwpla. Logo'r rhaglen gyfrifiadurol **Windows**. Eto, mae'r logo wedi datblygu o ran siâp a lliw ar hyd y degawdau. Ond yr un yw'r logos yn y bôn, sef 'fffenest', ac yn wir, mae'r byd cyfrifiadurol wedi agor ffenestri newydd sbon i fyd rhyfeddol



Oes, mae sawl pregeth ar hyd arwynebedd fy nescg! Sylwaf fod ambelll beth yn gyffredin rhwng y symbolau hyn i byd, yn bennaf y syniad o'r 'byd'. Mae popeth, o Ddydd Gweddi i Undeb o Eglwysi, o ffôn i gyfrifiadur yn ein hannog i feddwl yn nhermau byd-eang ac i gofio ein bod yn perthyn i deulu sy'n ymestyn i bedwar ban byd.

Rhyfeddol!

GWEDDIWN

Diolchwn i ti, O Dduw,
am i ti alw pobl o bedwar ban byd -
o'r gogledd a'r gorllewin,
o'r dwyrain a'r de
i fod yn un ac yn ddedwydd ynot ti.

Amen



Mis Mawrth	Darlleniad
Wythnos 1	Luc 8: 28-36
Dydd Mercher Lludw	Mathew 6: 1-6; 16-21
Wythnos 2	Luc 4: 1-13
Wythnos 3	Luc 12: 31-35
Qythnos 4	Luc 13: 1-9
Sul y Fam	Salm 32

**NOSON YNG NGHWMNI
EMYR LEWIS**

Clwb Rygbi'r Athletic, Caerfyrddin

Nos Wener 22 Mawrth am 7 o'r gloch

Tocynnau: £3 (Oedolion) / £1 (addysg llawn amser)

**Cysyllter â Nigel Davies ☎01884 230049 /
Tom Defis ☎07929173352**



Cyfle i glywed Emyr Lewis (cyn chwaraewr rygbi gyda 41 o gapiau) yn sôn am ei brofiadau ar y meysydd rygbi ac am ei ffydd.

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

PERSONAU DI-ENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

BYWYD I BAWB - APÊL MADAGASCAR 2018-2019

Yn y Papur y mis diwethaf cyflwynwyd gwybodaeth am un o brosiectau a gefnogir gan Apêl yr Undeb, sef helpu Akany Avoko - canolfan breswyl i adfer ac ailhyfforddi merched ifanc. Y tro hwn rydym yn cyflwyno prosiect arall mae Apêl yr Undeb yn ei helpu.

SAF

Meddygfa, Deintyddfa a Fferyllfa
'Mae pobl sy'n iach yn bobl llawn dwf.'

Yn adeiladau swyddfa FJKM yng nghanol y brifddinas y mae fferyllfa a chlinig deintyddol sy'n cael ei rhedeg gan fudiad SAF. Sefydlwyd SAF, o dan raglen datblygiad FJKM, i fynd i'r afael â'r diffygion mawr ym maes gofal iechyd. Mae gofal meddygol yn ddrud, a thu hwnt i allu'r person cyffredin i dalu amdano. Gall cwrs o gyffuriau gwrthfotig gostio cymaint â chyflog pythefnos i weithiwr cyffredin. Mae SAF yn cynnig gwasanaeth am bris llawer yn rhatach. Bellach mae rhwydwaith o 36 fferyllfa, gyda thri ohonynt yn y brifddinas.

Dr Phillipe XX yw pennaeth y tîm sy'n gweithio yn y brif fferyllfa. Mae'r tîm yn cynnwys dau feddyg, dwy nyrs, deintydd a staff gweinyddol. Mae Dr Phillipe wedi rhedeg y brif fferyllfa am dros 25 mlynedd. 'Pleser a braint yw cael gweithio gyda'r eglwys,' meddai, 'nid ennill arian sy'n bwysig i fi.

Mae'r staff yn cynnig gwasanaeth meddygol cyflawn i bawb sy'n cynnwys: triniaeth am afiechydon amrywiol, cyngor meddygol cyffredinol, brechiadau, clinig mamolaeth ac ôl-enedigaeth, clinig atal cenhedlu a chynllunio teulu. Ceir pwyslais mawr yng ngwaith SAF ar godi ymwybyddiaeth am afiechydon a'u hatal, afiechydon cyffredin fel y diciâu a malaria, a chyngor ynglŷn â HIV ac AIDS.

Y problemau mwyaf yw diffyg arian, prinder meddyginiaethau a phobl feddygol cymwys yn cael eu denu gan gyflogau uwch i weithio dramor. Serch hynny, mae'r fferyllfeydd yn gwneud cyfraniad allweddol i iechyd yng nghymunedau Madagascar.



COSTAU

Camera uwch-seinydd: £5,000

Ffynhonnell - Pecyn Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

MAE'R DIWRNOD MAWR YN AGOSÂU!



The image shows three individuals in bright red jumpsuits and helmets ziplining over a vast, snow-covered mountain range. They are suspended from red ziplines, moving from left to right across the frame. The background is a dramatic, high-altitude landscape with steep, snow-dusted slopes and distant peaks under a clear sky.

Zip World

Yn ymuno â'r Ffôn

**Mao-Bed-Wyn yn dathlu
ei phen-blwydd arbennig ym mis Ebrill
drwy Zipo lawr ar hyd llethrau Blaenau Ffestiniog
i godi-arian i Apêl Madagasgar
Undeb yr Annibynwyr!
Hoffech chi ei noddi?**



TEISENNAU FANILA BACH



DULL

Cynheswch y popty i 170°C / 330°F / Nwy 3.

Rhowch y menyn a'r siwgr mewn cymysgydd a'u cymysgu nes eu bod yn ysgafn ac o liw golau.

Arllwyswch y rhinflas fanila i mewn ac ychwanegu'r wyau.

Cymysgwch yn drylwyr i wneud cytew melyn.

Ychwanegwch y blawd a'i gymysgu nes ei fod yn llyfn am tua 5 munud. Cymerwch hoe ar ganol gwneud hyn a chrafu'r cynnwys o'r ymylon gan ddefnyddio sbatwla. Po hiraf yw'r amser cymysgu, y mwyaf o aer sy'n mynd mewn i'r cymysgedd ac yn ei wneud yn ysgafnach. Arllwyswch y cymysgedd i gasys teisennau bach.

Pobwch am tua 14 munud. Cadwch lygad arnynt. Bydd y teisennau wedi'u gwneud pan fyddan nhw'n teimlo fel sbwng a bod wyneb y teisennau'n dal i edrych yn eitha gludiog. Bydd hyn yn golygu na fyddan nhw'n sychu allan.

Gadewch nhw ar resel i oeri am 30 munud, yna'u haddurno fel y dymunwch.

Gallwch roi eisin menyn, neu gymysgedd siwgr eisin arnynt, neu eu bwyta heb ddim arnynt.

CYNHWYSION

175g / 6 oz menyn wedi'i feddalu

175g / 6 oz siwgr mân

2 lwy de o rinflas fanila (Vanilla essence)

3 wy buarth

175g / 6 oz blawd codi



Apêl Madagascar 2018-19 – Paned a Chacen
Rhowch gynnig arni!

**BLWYDDYN RYNGWLADOL
IEITHOEDD CYNHENID
UNESCO 2019**



Priodol iawn ym mis ein Nawddsant yma yng Nghymru yw tynnu sylw at Flwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid UNESCO 2019.

Asiantaeth o'r Cenhedloedd Unedig yw Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig neu UNESCO. Fe'i sefydlwyd ym 1946 er mwyn gwella cydweithrediad rhyngwladol. Mae'r pencadlys ym Mharis, Ffrainc, ac mae 195 o wledydd yn aelod ohono.

Bwriad UNESCO yn ystod 2019 yw codi ymwybyddiaeth o ganlyniadau rhoi ieithoedd cynhenid ar draws y byd mewn perygl a'r angen i'w diogelu, eu hadfywio a'u hyrwyddo er lles cytgord a chymod.



Mae rhyw 6.000 - 7.000 o ieithoedd yn y byd heddiw. Mae tua 97% o boblogaeth y byd yn siarad 4% yn unig o'r ieithoedd hyn, tra bo 3% yn unig o'r byd yn siarad yr ieithoedd sy'n weddill.

Rhwng 1950 a 2010, collwyd 230 o ieithoedd yn ôl Atlas UNESCO o *Ieithoedd y Byd mewn Perygl*. Erbyn hyn, mae gan draean o ieithoedd y byd lai na 1,000 o siaradwyr yn weddill. A phob pythefnos mae iaith yn marw wrth i ni golli'r siaradwr olaf. Amcangyfrifir y bydd 50 i 90% o'n hieithoedd yn diflannu erbyn y ganrif nesaf. Mae colli ieithoedd a'r hanes, y traddodiadau a'r cof sydd ynghlwm wrthynt yn cyfyngu'n fawr ar amrywiaeth ieithyddol gyfoethog ein byd.

Y Gymraeg yw'r unig iaith Geltaidd nad yw UNESCO yn ei dosbarthu'n iaith mewn perygl. Eto i gyd, mae UNESCO yn ystyried ei bod mewn sefyllfa fregus. Gwyddom fel y mae angen ei hyrwyddo'n gyson er mwyn ei helpu i ffynnu. Nid oes modd i ni orffwys ar ein rhwyfau ychwaith. Daeth hyn i'r amlwg yn ddiweddar pan godwyd pryderon ynghylch dyfodol trochi plant yn y Gymraeg mewn meithrinfeydd Cymraeg sydd wedi'u cyllido dan y cwriclew newydd.

Pan fo dynoliaeth yn colli iaith, mae'r canlyniadau'n gallu bod yn rhai difrifol gan fod llawer o fywyd diwylliannol. ysbrydol a deallusol person yn cael ei brofi drwy iaith. Mae hynny wedi'i grisialu'n

feistrolgar gan Harri Webb yn ei gerdd *Colli Iaith* a dyma ddfynnu' geiriau nodedig y pennill cyntaf:

**Colli iaith a cholli urddas,
Colli awen, colli barddas;
Colli coron aur cymdeithas
Ac yn eu lle cael bratiaith fas.**

Mae'n gyfle arbennig i ni yng Nghymru ym Mlwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO ddathlu diwylliannau amlieithog, bywiog ein gwlad a'u rhan ym mrodwaith ieithyddol cyfoethog y byd. Comisiynwyd **Ifor ap Glyn**, Bardd Cenedlaethol Cymru ac aelod yn Salem, ein gefaill gapel yng Nghaernarfon, gan Lenyddiaeth Cymru i gyfansoddi cerdd i nodi'r lansiad. Ac yn y gerdd *Lleisio* mae'r bardd yn crynhoi'n gampus hanfod achub a diogelu iaith:



Lleisio

nomina si pereunt, perit et cognitio rerum

**“os derfydd enwau,
derfydd hefyd dirnad pethau”.
Dwedwch felly, fawrion o wybodaeth,
ym mha fodd mae achub iaith?**

**Nid trwy'i chofnodi, na'i chysegru,
na chloi'i geiriau'n gacamwci gludiog
a lyno wrth y sawl
sy'n stelcian hyd ein cloddiau;**

**cans cadno wedi'i stwffio
yw pob Cymraeg llyfr;
ei 'untroed oediog' ni syfla mwy,
a'i lygaid gwyrdd sydd ddall.**

**Yn y llafar y mae ei lleufer;
a thafodau plant yw ei pharhâd.**

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys <i>Papur Priordy</i>)
--

**Bu Ahmed (Tŷ Capel) yn dathlu'i ben-blwydd yn ddiweddar
.Dyluniodd plant yr Ysgol Sul gardiau pen-blwydd iddo a
dysgu am Syria'r un pryd.**



Priodas ym Mhatagonia!

TREULION ni bron i fis yn Ne America rhwng Rhagfyr a Ionawr. Diben pennaf ein taith oedd cael bod ym mhriodas nai Rhyswen, Martin Pugh o Dregaron a Judith Jones o'r Gaiman, ond penderfynon ni ymestyn ein hymwelriad y ddwy ochr i'r briodas er mwyn cael profiad o Dde America am y tro cyntaf.



Fe gyrhaeddodd ni'r Wladfa ar ôl treulio pedair noswaith ym Muenos Aires a hedfan i faes awyr Trelew, a chael croeso yno ar ôl glanio gan Martin, Judith a Kia-Hui, cyfaill Martin o Gilfachreda. Yna codi'r car rhent a bant â ni i gyfeiriad Porth Madryn i dreulio tair noswaith yn yr Hotel Territorio, a'n hystafell yn y fan honno'n edrych mas ar yr olygfa hyfryd dros y bae. Uchafbwyntiau Porth Madryn oedd Amgueddfa'r Glaniad, a'r cofgolofnau'n dathlu 100 mlynedd a 150 mlynedd y glaniad. Hyfryd oedd cael sgwrs â gofawlwr Amgueddfa'r Glaniad, Eduardo, a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl, ar ôl ei dysgu mewn Cwrs Wlpan ym Mhorth Madryn. Roedd yn dangos balchder wrth ein tywys o gwmpas yr amgueddfa gan roi manylion diddorol i ni am ddigwyddiad y glaniad. Doedd e ddim o dras Cymreig - ei fam o dras trigolion cynhenid Patagonia a'i dad o dras Portiwgeaidd. Treulion ni ddiwrnod crwn yn teithio yn y car yn ymweld â Phenrhyn Valdes. Profiad diddorol dros ben. Cawsom weld y morloi eliffant a llewod y môr yn Punta Norte a'r pengwiniad Magellan yn Caleta Valdes, yn ogystal â'r guanaco a'r armadilo a'r estrysod ar y diffeithwch. Fe yrron ni ganuoedd o gilomedrau ar hyd ffyrdd cerrig heb fynd yn fwy cyflym na 60 cm yr awr. Diwrnod hir a blinedig, ond yn gwbl werth yr ymdrech gan ein bod yn gymharol agos at y penrhyn ym Mhorth Madryn.

Fe gyrhaeddodd ni'r Gaiman ar ddydd Nadolig a mynd i gartref Benito a Beatriz Jones (rhieni Judith) a mwynhau cinio Nadolig yng nghwmni'r teulu. Cawsom amrywiaeth blasus o wahanol gigoedd wedi'u coginio ar yr "asado" (math ar farbeciw), a the yn eu llestri gorau mas ar y lawnt yn yr haul twym i ddilyn.

Roeddem yn sefyll yng Ngwesty Tywi tua 600m bant ar hyd heol gerrig a buon ni'n aros yno am bum noswaith a derbyn croeso mawr gan Diego, y perchennog.

Trefnwyd noson gymdeithasol i'n croesawu ni (a'r ymwelwyr eraill o Gymru) cyn y practis côr wythnosol yn Ysgol Gerdd y Gaiman. Cawsom frechdanau a the a chacennau yno (yn debyg iawn i'r te yn Festri'r Priordy!) a chwrdd â rhai o'r trigolion Cymraeg.

Roedd yr ymweliad â'r amgueddfa yn yr Hen Orsaf rheilffordd yn bleser llwyr a

chael sgwrs hir yno gyda Fabio Gonzalez, y curadur, a mwynhau gwranddo arno'n ymhelaethu ar hanes y gwladfawyr yn ei Gymraeg coeth a chywir.

Cawsom sawl pryd bwyd yn nhŷ bwyta Gwalia Lân, ac yn falch iawn fod y perchennog a rhai o'r gweinyddesau yn siarad Cymraeg er mwyn hwyluso'r dewis o'r fwydlen!.

Fe ymwelon ni â sawl capel a mynwent gan gynnwys Moreia, Trelew, yng nghwmni **Mrs Nelia Humphreys** a ddangosodd inni gerrig beddau rhai o'r gwladfawyr cyntaf, gan gynnwys Lewis Jones ac Abram Mathews.

O ran mynwentydd, roedd mynwent anghysbell Tir Halen yn ddiddorol, a mynwent tref Gaiman ei hun lle roedd y nifer fwyaf o gerrig

beddau'r Cymry cynnar. Cawsom gyfle hefyd i ymweld â fferm Llainlas (cartref John Davies y Bwcs y mae sôn amdano yn y llyfr "*O Drelew i Drefach*") a chael croeso gan y perchennog presennol Edi Griffiths. Mae'r tŷ fferm wedi cael ei adfer erbyn hyn, ond does neb yn byw ynddo'n barhaol. Mae gweithwyr y fferm yn ei ddefnyddio yn ystod y dydd.



Daeth diwrnod y briodas ar ddydd Sadwrn, 29 Rhagfyr a'r gwasanaeth yn dechrau am 6 yr hwyr yng Nghapel Bethel, y Gaiman. Gwasanaeth dwyieithog gyda gweinidog y capel, Pastor Carlos Ruiz, yn annerch yn Sbaeneg a'r Parch Carwyn Arthur o Dregaron yn arwain y ddefod briodasol yn Gymraeg.

Canodd Côr Ysgol Gerdd y Gaiman a darllenodd sawl unigolyn o'r Beibl yn y Gymraeg a'r Sbaeneg.


Canodd Roberto, brawd Judith, unawd, sef "*Rwy'n Dy Weld yn Sefyll*". Roedd y wleded briodasol mewn neuadd yn ardal Treorki, a chafwyd llawer o hwyl yn y fan honno gyda chanu a dawnsio tan oriau mân y bore. Thorrwyd mo'r gacen briodas tan 1:30 y bore. Odyn, maen nhw'n adar y nos yn yr Ariannin!

Roedden ni'n ôl yng Nghapel Bethel eto drannoeth (nos Sul) ar ôl profi Te Cymreig cyflym yn nhŷ te Tŷ Gwyn yn y Gaiman. Roedd y gynulleidfa'n deneuach nag arfer achos tymor y Nadolig ond chwyddon ni'r ymwelwyr o Gymru'r nifer yn sylweddol!

Pregethwyd gan y Parch Carwyn Arthur, gyda Billy Hughes yn arwain y gân a'i wraig Gwladys Thomas wrth yr organ. Diddorol oedd sylwi taw'r *Caniedydd* oedd ar waith ac, nid *Caneuon Ffydd*. Cafwyd mynegiad grymus o'r hen ffefryn, *Builth*, mewn tri llais gan y gynulleidfa fach. Yn ôl i'r festri (Bethel Vieja- Hen Fethel) wedi'r oedfa am ragor o de a brechdanau yng nghwmni Eluned Gonzalez, Irma Williams, Billy Hughes a Gwladys Thomas. Ac fel pe baen ni heb gael digon o fwyd erbyn hynny, draw â ni i Tierra Negra ar ôl gadael y festri i gael mwy a chwmnia gyda theulu Judith unwaith yn rhagor cyn mynd i'r cae nos yn barod am ein taith dros y paith i Esquel fore trannoeth.

Daeth Marli Pugh (mam-fedydd Judith, arweinyddes Côr Ysgol Gerdd y Gaiman, a'n tywysydd ar daith un niwrnod i weld pengwiniaid Punta Tombo) i'r gwesty fore trannoeth i ddweud ffarwel wrthym ni, yr ymwelwyr o Gymru. Chwarae teg iddi.

CROESODD y saith ohonom y paith mewn dau gerbyd mewn rhyw saith awr a



chyrraedd Esquel mewn pryd i drefnu tŷ bwyta i groesawu'r flwyddyn newydd. Cawsom noson hwyliog dros ben yn nhŷ bwyta Pil-Pil. Drannoeth cymeron ni olwg ar ddau gapel yr Andes (Bethel y Cwm yn Nhrefelin, a Seion Esquel) yn ogystal â cherdded rhywfaint ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces. Ymlaen mewn bws moethus o

Esquel fore trannoeth ar hyd Ruta 40, a'r Andes ar ein chwith ar hyd y daith i **Bariloche**. Treulion ni rai diwrnodau yn y fan honno yng nghysgod yr Andes yn mwynhau'r golygfeydd prydferth ac yna hedfan i Rio di Janeiro am wythnos arall o ymlacio yn y gwres ger traeth Copacabana cyn troi am adref. Gwyliau cofiadwy dros ben.



GAIR O DDIOLCH

Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Rosan Saunders am gyflwyno amrywiaeth o offer ar gyfer gweithgarwch plant a phobl ifanc i'r Priordy. Edrychwn ymlaen at wneud defnydd ohonynt'

Gwisg Gŵyl Dewi



Drwy'r sidan mae ein hanes wedi'i weu
hyd y wisg yn gynnes,
ein rhuddin mewn leinin lês
a'n lliwiau ar ei llawes.



Aled Evans



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

Boreau Mercher 6, 13, 20 Mawrth 2019

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?

www.annibynwyr.org



Gareth Gravell.... Y GYMDEITHAS

Nos Lun 4 Chwefror 2019

CAFWYD noson arbennig iawn yng nghwmni Richard Morgan yng nghyfarfod y Gymdeithas y mis diwethaf. Wedi cyflwyniad trylwyr gan ein Gweinidog, cyd-ganu'r emyn *Pantyfedwen* a darlenniad addas o Salm 100 gan Adrian Evans, cafodd y gynulleidfa niferus, yn cynnwys ein cyfeillion o Gymdeithas y Tair Eglwys, wledd wrth wrando ar y siaradwr gwadd.



Yn enedigol o Rydaman graddiodd Richard Morgan mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth a bu'n darlithio ym Mhrifysgolion Abertawe a Llambled cyn ei benodi'n Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ym 1982 - ymddiriedolaeth a sefydlwyd gan Syr David James er budd pobl Cymru. Enillodd wobwr am gyflawni 25 mlynedd fel darlithydd gyda'r Brifysgol Agored a

chael ei urddo'n Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2010.

Seiliodd ei sgwrs ar un o benodau'r llyfr y mae'n ei ysgrifennu am hanes Syr David James (sy'n cael ei adnabod hefyd fel DJ) i'w gyhoeddi erbyn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion yn Nhregaron yn 2020.

Ganed DJ yn Llundain ym 1887 i Catherine a John James, yn wreiddiol o ardal Tregaron, a fentrodd i'r busnes llaeth yn Llundain, fel nifer o Gymry ar y pryd. Yna sefydlodd ei dad gwmni grawn a dyfodd i fod yn gwmni llwyddiannus iawn - cwmni sy'n bodoli hyd heddiw a'i bencadlys yn Awstralia!



Yn y 30au mentrodd DJ i fyd y sinemâu a phrynodd nifer gan gynnwys yr enwog Stiwdio 1 a 2 yn Stryd Rhydychen. Erbyn 1939 roedd wedi gwerthu'r sinemâu i gyd ac eithrio Stiwdio 1 a 2 ble roedd ei brif swyddfa ynghyd â chanolfan dros dro i Gymru Llundain.

Mae plant a phobl ifanc wedi cael sylw mawr gan DJ yn ei holl weithgarwch, er na chafodd blant ei hun. Roedd yr Urdd yn bwysig iawn iddo. Daeth yn

ffrindiau mawr gyda Syr Ifan ab Owen Edwards ac mae yna dystiolaeth am roddion diri ganddo i'r Urdd pan oedd y mudiad yn ymdrechu'n galed i gadw dau ben llinyn ynghyd yn y dyddiau cynnar.

Ym 1947, prynodd DJ Westy'r Cambrian (Gwesty'r Grand cyn hynny) yn Borth ar gyfer yr Urdd a rhoddwyd yr enw Pantyfedwen arno.. Cafodd ei ddefnyddio ar



gyfer pwyllgorau ac ym 1951 cynhaliwyd cyfarfod preswyl cyntaf yr Urdd yno. Gwerthwyd y safle ym 1974 a'r elw'n mynd at yr Urdd er mwyn buddsoddi yng nghanolfannau Llangrannog a Glan-llyn. Erbyn heddiw mae'r safle'n cynnwys tai a fflatiau.

Yn y flwyddyn 1950 cyflwynodd DJ gwpan arian i'r Urdd fel gwobr ar gyfer cystadleuaeth pêl-droed Roedd y cwpan hwn yn drymach hyd yn oed na chwpan yr FA! Cafwyd cwpan mwy fyth eto hefyd i'w gyflwyno i'r sir yn ennill y marciau uchaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Doedd yr Urdd ddim yn awyddus iawn i dderbyn y cwpan hwn ond cafwyd perswâd! Mae'n debyg mai bwriad D.J oedd creu'r cwpan arian mwyaf yn y byd. Roedd y cwpan yn creu ychydig o broblemau oherwydd ei maint gan ei fod yn rhy drwm i'w gario. Roedd yr Urdd am gael cwpan tipyn llai o faint ac un oedd wedi'i greu yng Nghymru. Pan sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth fel y mae heddiw ym 1998 trosglwyddwyd y cyllid o werthiant y cwpan i'r Urdd.



Roedd gan DJ ddau consŷrn ynglyn ag enwadau crefyddol Cymru sef bod gormod o adaeiladau a sut byddai hyn yn effeithio ar gynulleidfaoedd yn y dyfodol.Yr ail gonsŷrn oedd y gost o gynnal gweinidogion gan gynnwys pensiynau gweinidogion a'u gweddwon.

Er iddo fwynhau ychydig o lwyddiant, gwelodd hyn oll yn broblem ddyrws iawn, yn arbennig wrth drafod gyda'r enwadau Anghydfurfiol! Roedd ei ofynion yn rhy uchelgeisiol ac yn gofyn gormod mewn amser mor fyr. Pan awgrymodd y byddai disgwyl i'r enwadau uno mewn blwyddyn er mwyn derbyn swm penodol o arian bu tipyn o gythrwfl, a dweud y lleiaf! Ond ni fu pall ar haelioni DJ er gwaethaf yr helbulon.

Roedd DJ hefyd yn awyddus i helpu'r Eisteddfod Genedlaethol ond nid oedd y

Cyngor yn gallu ymateb i'w gais am ychwanegu diwrnod at y gweithgareddau ar gyfer cystadlu yn Saesneg. Byddai hynny, wrth gwrs, yn torri ar draws y Rheol Gymraeg. Siomodd DJ ac mae'n bosib mai dyna pam yr aeth ati i sefydlu tair Eisteddfod James Pantyfedwen gyda gwobrwyon hael..Y gyntaf oedd Eisteddfod Ponrhydfendigaid. Roedd DJ yn hoff iawn o osod amodau ond freuddwydiodd neb am amod a roddodd I bwyllgor yr eisteddfod hon, sef, bod yna gystadleuaeth "*Bathing Beauties*" yn cael ei chynnal!! Wel doedd dim syndod i'r cynnig gael ei wrthod ond daeth DJ yn ôl at y pwyllgor mewn chwe mis a thynnu'r amod hwnnw'n ôl. Buddsoddodd yn hael iawn gan gynnwys pafiliwn. Aeth ymlaen wedyn i sefydlu Eisteddfod Aberteifi a Llambod ac enwyd y rhain ar ôl aelodau'r teulu.

Yn ystod ei yrfa busnes prynodd DJ lawer o dir ger Ponrhydfendigaid gan gynnwys ffermydd a gwerthu llawer ohonynt wedyn i'w denantiaid. Ond wrth feddwl ymlaen at ddiwedd ei fywyd, prynodd yn ôl ddau gyfer o dir er mwyn ymestyn y fynwent yn Ystrad Fflur a sefydlodd ymddiriedolaeth i ofalu amdani. Roedd y fynwent ar dir yr Eglwys, ond cafwyd cytundeb fel ei bod yn eiddo i bawb ac nid yr Eglwys yn unig.

Ym 1963 tra oedd yn paratoi i fynd ar wyliau cwmpodd Lady Grace a bu'n wael iawn a dirywiodd ei hiechyd nes iddi farw ym 1963. Roedd yr angladd i fod yn Ystrad Fflur. Aeth DJ ati i drefnu a gofynnodd am gael Salm 23 yn lle'r salm arferol a ddefnyddid mewn angladdau. Roedd hefyd



yn dymuno cael dau o'i gyfeillion a oedd yn weinidogion i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Ond gwrthodwyd y cais. Y canlyniad oedd cyfaddawd, sef cynnal y prif wasanaeth yng Nghapel Rhydfendigaid lle cydymffurfiwyd â chais DJ, ac yna yn ôl i Eglwys Santes Fair yn Ystrad Fflur a chladdedigai yn y fynwent. Wedi'r angladd, mae'n debyg i DJ dynnu siec am £200,000 o'i boced a'i dangos i'r

awdurdodau gan ddweud y byddai'r Eglwys wedi derbyn yr arian mawr hwn pe bai wedi cytuno â'i gais! Bu farw Syr David James ei hunan bedair blynedd yn ddiweddarach.

FELLY gyda hynny daeth terfyn ar y ddarlith a phawb wedi mwynhau a dysgu llawer am y cymwynaswr arbennig hwn a'i syniadau chwyldroadol a dweud y lleiaf am ddyfodol crefydd a diwylliant yng Nghymru.

DEWI SANT – DDOE A HEDDIW

CWTA chwe blynedd yn ôl cyhoeddodd Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd ganddo'n dangos bod llai na hanner y genedl yn gwybod pam mae Dydd Gŵyl Dewi'n cael ei ddathlu mewn gwirionedd.



Roedd yr anwybodaeth yn rhyfeddol. Mae'n anodd meddwl fod y rheswm dros ddathlu Dewi Sant, yr unig nawddsant yn y Deyrnas Unedig a anwyd yn y wlad

lle mae'n nawddsant, yn ddieithr i lawer. Mae'n fwy rhyfeddol fyth o ystyried fod Mawrth y Cyntaf, dydd marw Dewi, wedi bod yn ŵyl genedlaethol ers canrifoedd gyda chryn ddathlu o hyd mewn amrywiol gymdeithasau ac ysgolion.

Gobeithio'n bod wedi symud ymlaen ychydig dros y blynyddoedd diwethaf hyn, gyda'r cyhoeddusrwydd mae'r gorymdeithiau Gŵyl Dewi sy'n digwydd mewn sawl man yng Nghymru'r dyddiau hyn yn ei dderbyn.

Datgelodd yr un arolwg ystadegau diddorol eraill am wybodaeth y genedl o hanes Cymru. Nid oedd 70% o bobl Cymru'n gwybod pam mae dydd y Santes Dwynwen yn cael ei ddathlu ar 25 Ionawr, ac roedd 56% o bobl yn credu bod gan Gymru lai na 100 o gestyll, er bod dros 600 mewn gwirionedd!



Er nad yw Cymru'n wlad fawr o ran maint mae'i hanes yn hir a diddorol. Does ond gobeithio y bydd y cwricwlwm newydd sydd

i'w gyflwyno'n statudol ac yn raddol yng Nghymru ym Medi 2022, yn rhoi pwyslais haeddiannol, ar ôl hirymaros, ar hanes Cymru a'r dimensiwn Cymreig.

Mae gwybod a dysgu mwy am Ddewi'n bwysig nid yn unig o ran ein hunaniaeth fel cenedl ond hefyd o ran y Ffydd Gristnogol

Dyn ffydd oedd Dewi'n anad un peth arall. Tyfodd yn un o aelodau mwyaf dylanwadol Eglwys Geltaidd ei gyfnod gan ledu neges Cristnogaeth ymysg llwythau paganaidd Prydain a sefydlu mynachlog yng Nglyn Rhosyn yn Sir Benfro.

Daeth Dewi'n nawddsant i'r Cymry yn y lle cyntaf, mae'n debyg, am fod cynifer o eglwysi hynafol Cymru wedi'u cysegru iddo a'i wylfabsant yn cael ei dathlu mewn mwy o eglwysi nag unrhyw un arall o'r seintiau brodorol.

Mae dathlu Gŵyl Dewi a chofio'n nawddsant yn gyfle i ni ddangos fod yna Gymry Cristnogol yma o hyd yn ein gwlad. Mae'n gyfle hefyd i ni gael ein hysbrydoli o'r newydd gan gredo Dewi a'i awydd i efengyleiddio mewn talcenni caled. Ac mae Cymru'n dalcen caled heddiw!



Dangosodd astudiaeth yn 2017 fod Cymru yn un o'r ardaloedd lleiaf crefyddol ym Mhrydain. Ar ben hynny, mae arolygon wedi awgrymu ers blyneddoddd fod Cristnogaeth ar drai yn ein gwlad. Mae'r rhesymau am y dirywiad yn amrywiol a chymhleth iawn ond yn cynnwys argyfwng ffydd, methiant i ddod i lawr i'r 'tir gwastad' ac addasu i anghenion newydd.

DYWEDIR weithiau y byddai Dewi'n torri'i galon pe bai'n dychwelyd i Gymru heddiw. Ond tybed? Mae'n fwy tebygol y byddai'n wfftio'r 'triwstwach sydd ar gerdded' yn ein plith ac yn ein hannog yn hytrach i 'lawenhau' ac 'atgyfnerthu' a 'gorfoleddu'. Byddai'n parhau i ledaenu'r newyddion da am Iesu'n newid bywydau er gwell – fel y gwnaeth yn ei gyfnod heriol yntau. Byddai'n dyfalbarhau i atgoffa'r rhai sy'n dweud nad oes ganddynt grefydd fod ffydd yn Nuw yn gallu trawsnewid eu bywydau personol a'r byd. A byddai'n awyddus i ddangos i bobl Cymru, er mor anodd yw credu'r peth, fod y ffydd Gristnogol yn fwy byw yn awr nag y bu erioed yn fyd-eang. Ac yn sicr i chi, byddai'n ein hannog ni heddiw i'w ddilyn mewn ymgyrch fawr i droi Cymru yn Gymru i Grist. Y cwestiwn mawr yw a fydden ni'n gêm?



Gwasanaeth Gŵyl Dewi 2019

PLESER o'r mwyaf unwaith eto eleni oedd mynychu gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi Eglwysi a Chapeli Caerfyrddin, gyda lluo

blant a phobl ifanc y dref, yn cynnwys rhai ifanc iawn iawn - mor

ifanc â mis oed. Braf oedd gweld cynifer o blant yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn gwisgo'r wisg draddodiadol neu grys Cymreig (yn benodol o gofio llwyddiant y tîm cenedlaethol ar faes y cae rygbi y prynhawn blaenorol!).



Estynnwd croeso twymgalon gan **y**

Parchedig Aron Treharne i'r holl Gapeli ac i Faer y Dref, y Cynghorydd Emlyn Schiavone, a rhwydd oedd dilyn y trefniadau gyda phamphled a sgrîn hyfryd i gynorthwyo'r gynulleidfa.

Cyflwynwyd yr emyn cyntaf "*Molwn Enw'r Arglwydd*" (JJ Williams) gan aelodau ifanc Capel y Tabernacl, ynghyd â chyfeiliant band Capel Peniel a'r Parchedig Treharne ei hun ar y gitâr.



Yna cafwyd darlenniad priodol, clir a hyderus o 1 Thesaloniaid 1:2-10 gan aelodau ifanc Capel Y Priody Syfi, Jac, Jona ac Ethan cyn i Gwenan gyflwyno Salm 117 "*Molwch yr Arglwydd*". Rydyn ni i gyd yn falch iawn o'u hymroddiad a'u parodrwydd i gyflwyno mor dda o flaen bawb.

Canwyd emyn newydd a hyfryd wedi hyn, "*Addolwn Enw ein Harglwydd Dduw*" a gyfansoddwyd gan Arfon Jones.

Arweinwyd pawb mewn gweddi gan Capel Peniel ac emyn yr enwog William Williams "*Iesu, Iesu rwyf ti yn ddigon*", wedi'i

gyflwyno gan Heol Awst.

Cawsom ein diddanu a'n dysgu gan y bobl ifanc yn cyflwyno cân newydd gyffrous *"Nid mega arwyr mega dewr yw pobl Dduw"* gyda symudiadau hwyliog i gyd-fynd â hi. Ymunodd rhai o aelodau hŷn y gynulleidfa yn yr hwyl hefyd er mawr bleser i bawb!



Wedyn cawsom sgwrs hwyliog gan Arfon Jones, awdur **beibl.net**. Trafododd dair elfen bwysig ym mywyd mywyd Dewi Sant, sef (1) *Gweddi* (2) *Bywyd Syml* a (3) *Dysgu am Iesu*. Esboniodd y nodweddion hyn gyda defnydd drych, a gêm x-box - ffordd ddiddorol iawn o egluro pethau i bobl ifanc. A neges fuddiol a defnyddiol iawn at fywydau prysur pobl heddiw.

I orffen y gwasanaeth canodd pawb emyn Nantlais *"Daeth Iesu i'm calon i fyw"* a gyflwynwyd gan rai ifanc Capel Elim.

Bydd casgliad yr oedfa yn mynd at godi arian i ddarparu Beiblau i blant ysgolion cynradd Caerfyrddin.

"Gwnewch y pethau bychain"

oedd geiriau Dewi Sant, Yn wir bydd y Beiblau a roir i'r plant ymhell o fod yn fychain os byddant yn eu dysgu am waith a bywyd Crist.



Pob bendith ar yr oedfa ac ar bob un o aelodau Capeli ac Eglwysi Caerfyrddin.

Yn yr Hwyr

CYNHALIWYD Oedfa'r Hwyr yn Eglwys Crist, Caerfyrddin. Cymerwyd rhan gan weinidogion ac offeiriaid y dref, gan gynnwys Y Parchedig Beti-Wyn. Estynnwyd croeso arbennig i'r Parchedig Nicholas Bee, Gweinidog Babel Zion Newydd, yn ymuno



â ni am y tro cyntaf ers dod i'r cylch.,

Yn ei fyfyrddod grymus, cydiodd y Parchedig Ganghellor Dr Patrick Thomas mewn geiriau sy'n rhan o'n hetifeddiaeth deg bellach, sef



Byddwch lawen. Cadwch eich Ffydd a Gwnewch y Pethau Bychain.

Fe ddywedir bod y geiriau hyn ymhlith rhai olaf ein Nawddsant Dewi yn y chweched ganrif. Fe'u cofnodir yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi – llawysgrif sy'n perthyn i'r 14 ganrif. Dangosodd y Dr Thomas fel y mae'r geiriau'n parhau i fod yr un mor rymus heddiw ac yn sylfaen gadarn ar gyfer adfywio'r Ffydd Gristnogol yn yr unfed ganrif ar hugain.

WEDI'R myfyrddod, cawsom gydgyuno dan arweiniad yr offeiriaid a'r gweinidogion, A pha well ffordd o orffen dathliadau'r dydd na thrwy gydgyuno i gofio aberth Iesu drosom a hynny wedi golygu cymaint i Ddewi Sant,



Perfformir
Croeshoeliad John Stainer
gan
Gorau Unedig Seingar a Tŷ Tawe
Capel Y Priordy
Nos Sul 24 Mawrth 2019 am 6 o'r gloch



Unawdwyr
Efan Williams
Tenor
Gwyn Morris
Baritôn

Organydd
Meirion Wynn Jones
Tocynnau: £8 (Siop y Pentan, Swyddfa Llyfrau Llafar
Cymru neu wrth y drws
Elw i Lyfrau Llafar Cymru

Cyflwyno rhoddion hylendid i Fyddin yr Iachawdwriaeth i helpu'r digartref



**Cyflwyno sic am £1,650.00 i Shân Cothi o Elusen Amser Justin Time - elw'r Gymanfa Garolau a gynhaliwyd yng Nghapel y Priordy ym mis Rhagfyr er cof am Alison Evans
Diolch i bawb am y gefnogaeth a gafwyd.**



Tudalen Ieuenctid@Priordy

Gŵyl Dewi

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r Gwasanaeth Gŵyl Dewi a diolch arbennig i Syfi, Jona, Jac, Ethan a Gwenan am gymryd rhan. Diolch i Jayne am drefnu'r cwbl.



Dyddiadur	Ysgol Sul	PIP
Mawrth 3	Dim Ysgol Sul	PIP i'r oedfa
Mawrth 10	Ysgol Sul	Oedfa yng ngofal PIP
Mawrth 17	Ysgol Sul	PIP i'r oedfa
Mawrth 24	Ysgol Sul	PIP i'r Oedfa
Mawrth 31	Sul y Mamau Oedfa Deulu	Sul y Mamau Oedfa Deulu
Ebrill 7	Ysgol Sul	PIP
Ebrill 14	Cwrdd Plant a Phobl Ifanc	Dychwelyd BLYCHAU SMARTÎS ‘

Bore Coffi i Apêl Madagascar

Ebrill 13

Rhwng 10 a 12 yn y festri

STONDIN PIP

Cofiwch ddod i helpu



Cofiwch lenwi
eich blychau
Smarties i Apêl
Madagascar!

Hwyl am y tro
Beti Wyn

PIP YN PETHAU DA



Pethau da*



Sara Llwyd....

BORE SUL, 19 Chwefror 2019, aeth dwsin o aelodau PIP o'r Capel draw i gaffi Pethau Da i fwynhau brecwast gyda'n gilydd. Roedd Alison wedi trefnu bod bwrdd wedi'i sicrhau ar ein



cyfer, a Hawys wedi paratoi brecwast arbennig unwaith eto.



Elinor ac Eleri yn trafod syniadau ynghlŷn â stondin PIP ym More Coffi Madagascar yn y Festri ar 13 Ebrill. Roedd y rhestr syniadau'n hir, ac yn amrywio o gyfri nifer y losin mewn jar i bino'r sbectol ar Beti-Wyn!



Bydd PIP yn penderfynu ar drefniadau terfynol eu stondin, a gobeithio y dewch chi i gyd i'r bore coffi i'n cefnogi.

DIOLCH am y croeso i Gaffi Pethau Da unwaith eto. Cawsom fore hyfryd.





Apêl Madagascar
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

BORE COFFI

Sadwrn, 13 Ebrill 2019
10 tan 12 o'r gloch
Festri Capel Y Priordy, Caerfyrddin
Mynediad £2
Stond i nau amrywiol
Paned ffeind!

Croeso a chwmni da
Galwch heibio!

BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH A DIGARTREFEDD

YNG NGHAERFYRDDIN



Y RHAGLEN WAITH

Yma yng Nghanolfan Galw-i-mewn Caerfyrddin, rydyn ni ym Myddin yr Iachawdwriaeth yn cael cyfle i gynnig gwir obaith a chymorth i bobl ddigartref. Yn y lle cyntaf rydyn ni'n ceisio cwrdd â'u hanghenion corfforol drwy gyfrwng bwyd, dillad a chysgod. Ar foreau Mawrth a Iau, o 9 tan 10 y bore, rydym yn cynnig brecwast rhad ac am ddim. O 10 y bore rydyn ni'n ymosod ar unrhyw anghenion cynnal y gallai fod gan ein clientiaid. Rydym yn gweini cinio twym am 12 o'r gloch ar y dyddiau hyn hefyd.

Mae pob person digartref yn unigryw gyda heriau a dyheadau unigryw. Dydyn ni ddim bob amser yn gallu datrys materion llety ar unwaith ond rydyn ni'n gallu cyfeirio at asiantaethau yng Nghaerfyrddin, rhoi talebau banc bwyd a pharseli bwyd yn ogystal â chynnig cawod dwym a newid o ddillad. Rydyn ni hefyd yn cadw cydau cysgu a blancedi ar gyfer y rhai sy'n dymuno hynny ynghyd â llety brys am ychydig o nosweithiau.

Rydyn ni'n cael ein staffio'n bennaf gan wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser mor hael.

CWIS MAWRTH

Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythren 'M'

Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1	M					
2	M					
3	M					
4	M					
5	M					

Cliwiau

1	Yr ynys y drylliodd arni'r llong roedd Paul ynddi ar y ffordd i Rufain (Actau 28:1)
2	Enw'r mynydd y galwyd Abraham i aberthu Isaac arno (Genesis 22:2)
3	Un o feibion Ismael (Genesis 25:14)
4	Coed wedi'u llosgi'n fud (Eseia 44:19)
5	Dinas yn Ne Jwda (1 Cronici 4:28)

*Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf*

ATEBION CWIS CHWEFROR

1. Chwerw 2 Chios 3 Chwarddodd 4 Chun 5 Chorasin

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN CWRDD CHWARTER

Dydd Iau, 14 Mawrth 2019 – Capel Peniel
10.30 am a 1.30pm

*Yng nghyfarfod y prynhawn bydd anerchiad
gan Y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd
Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr*



Dyddiadau a Lleoliadau'r Cwrdd Chwarter yn 2019
9 Mai, 4.00 a 7.00pm - Y Priordy
12 Medi, 4.00 a 7.00pm - Hermon
28 Tachwedd, 10.30am a 1.30pm - Henllan Amgoed

DAVID REES Y CYNHYRFWR
14 Tachwedd 1801 – 31 Mawrth 1869
Gweinidog gyda'r Annibynwyr a Golygydd

FE'I ganed yn y Gelli-lwyd ym mhlwyf Tre-lech, Sir Gâr. Pan oedd yn ifanc bu'n gweithio ar fferm ei dad. Ychydig o addysg a gafodd ac eithrio ar yr aelwyd ac yn yr Ysgol Sul.

Daeth yn aelod yng Nghapel Annibynol Tre-lech a gosod ei fryd ar y weinidogaeth. Aeth i ysgol yn Hwlfordd a Chaerfyrddin cyn symud i ysgol baratoi yn y Drenwydd ac yna Athrofa'r Annibynwyr yno. Ymysg ei gyd-fyfyrwyr yn yr Athrofa roedd Samuel Roberts, Llanbryn-mair (1800-1885), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn ddiweddarach, a chafodd radicaliaeth SR ddylanwad mawr arno.

Priododd â Sarah Roberts, merch i siopwr llwyddiannus a diacon gyda'r Bedyddwyr a chawsant bump o blant.

Ond ni fu bywyd heb ei dristwch a chollwyd pedwar ohonynt yn ystod


oes David Rees, yn cynnwys dau fab yn eu harddegau cynnar a foddodd wrth iddynt ymdrochi gyda'i gilydd yn y môr yn Llanelli. Bu farw'i wraig ym 1857 ond ailbriododd â Margaret Phillips, gweddw o Fountain Hall, Caerfyrddin, merch ieuengaf teulu Pontcowin ger Bancyfelin, y flwyddyn ganlynol.



Daeth yn Weinidog ar Gapel Als Llanelli ym 1829 ac aros yno hyd ei farw ym **1869, cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn**. Ym marn Huw Edwards yn ei gyfrol *Capeli Llanelli*, David Rees yw'r 'ffigwr pwysicaf oll yn hanes Llanelli, yn rhinwedd ei waith aruthrol fel



gweinidog, newyddiadurwr, golygydd, ymgyrchydd gwleidyddol, dyn busnes, addysgwr ac ymladdwr dros hawliau'r bobl gyffredin'.



Roedd yn bregethwr dylanwadol a grymus, yn feistr ar gyfathrebu â'i bobl ac yn arweinydd a threfnydd effeithiol. Credai'n gryf mewn disgyblaeth eglwysig a gosodai bwys mawr ar ddirwest. Ffynnodd Capel Als yn ystod

ei weinidogaeth. Fe ddechreuodd draddodiad cerddorol yr eglwys a bu'n gyfrifol am osod yr harmoniwm gyntaf yno. Daeth Llanelli'n un o gadarnleoedd Annibyniaeth yng Nghymru'r pryd hwnnw. Yn ogystal ag arwain sawl ymgyrch i adnewyddu ac ymestyn Capel Als sefydlodd David Rees bedair eglwys Annibynnol yn y dref, sef Siloa, y Bryn a'r Doc ac Eglwys Saesneg y Parc. Ni fu heb ei feirniaid yn sefydlu'r achos Saesneg. Bu'n eiddgar iawn drwy gydol ei oes dros godi achosion Saesneg gan ystyried hynny'n rhan hanfodol o'r genhadaeth Gristnogol yng Nghymru. Cyfeiria Iorwerth Jones ato yn ei gyfrol *David Rees y Cynhyrfwr* fel '*arloesydd yr English Côs*'. Ystyriai mai Saesneg oedd iaith y dyfodol wrth weld y defnydd ohoni'n lledu a chymdeithas yn newid - a'r iaith honno oedd iaith ei aelwyd. Roedd yn credu y byddai Ymneilltuaeth Cymru ar ben heb godi capeli Saesneg yn y wlad.

Roedd David Rees yn ddinesydd cydwybodol a bu'n flaenllaw iawn yn mywyd tref Llanelli mewn amryw ffyrdd, Fe, er enghraifft, oedd un o sylfaenwyr a goruchwylwyr Banc Cynilo cyntaf Llanelli a chwaraeodd ran amlwg hefyd yn nechreuad Llyfrgell y dref. Yn llawn sêl gymdeithasol, bu'n enau i ddyheadau pobl am well a thecach byd.

David Rees sefydlodd a chyhoeddi'r cylchgrawn crefyddol misol *Y Diwygiwr*, yn bennaf er mwyn gwasanaethu Annibynwyr de Cymru. Cyhoeddodd y rhifyn cyntaf ym mis Awst 1835 a bu'n golygu'r Papur hyd fis Rhagfyr 1865. Safai'n gadarn dros radicaliaeth ac ymneilltuaeth a bu'n wrthwynebydd cryf i David Owen (Brutus),



un arall o feibion Sir Gâr, a droes ei gefn ar Ymneilltuaeth ac ymuno ag Eglwys Loegr a dod yn olygydd cylchgrawn *Yr Haul*, misolyn yr Eglwys Sefydledig. Bu gwrthdaro rhwng y ddau ar dudalennau'r cylchgronau hyn am ddeng mlynedd ar hugain!

Roedd David Rees yn bersonoliaeth cryf a chadarn ei farn ac yn bropagandydd disglair. Byddai'n arddel arwyddair y Gwyddel Daniel O'Connell: '*Cynhyrfer! Cynhyrfer! Cynhyrfer!*'! Ac felly y bu fyw! Ysgrifennodd yn helaeth ond diofal ac esgeulus yn aml oedd cystrawen a mynegiant ei erthyglau

Er mai cylchgrawn crefyddol oedd y Diwygiwr yn y bôn, byddai hefyd yn rhoi sylw manwl i bynciau'r dydd a materion gwleidyddol. Rhoddai David Rees ei gefnogaeth i'r egwyddor y tu ôl i fudiadau fel Merched Beca, Y Siartwyr, Y Gymdeithas Ryddhau a'r Gynghrair yn Erbyn y Deddfau Ŷd ond condemnai bob tuedd at drais wrth brotestio a gweithredu.

Roedd David Rees yn dda'i fyd drwy'i briodasau a'i fenter ariannol ei hunan ddechreuodd Wasg y Diwygiwr. Yn ogystal â'r Diwygiwr byddai'r Wasg yn argraffu cylchgronau eraill, ynghyd â llyfrau a llyfrynnau a manion bethau at ddefnydd eglwysi.

YN un o gedyrn Sir Gâr, bu David Rees yn efengylwr llawn brwdfrydedd gwleidyddol drwy gydol ei oes. Roedd yn weithiwr diflino a diarbed ac fe'i disgrifir fel pensaer ac adeiladydd y Ffydd Ymneilltuol yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Ac ystyriai barhad Ymneilltuaeth yn llawer pwysicach na pharhad yr iaith Gymraeg. Bu'n ddylanwad mawr ar grefydd a gwleidyddiaeth ei gyfnod

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 6 Mawrth 2019 am 7 yn y Ffestri

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CANA A BLAENORIAID
BANCYFELIN**

Nos Fercher, 20 Mawrth 2019 am 7 yn Ffestri'r Priordy

TALWRN Y BEIRDD

*Nos Fercher 27 Chwefror 2019
Yr Egin, Caerfyrddin*



Cynhaliwyd y Talwrn fel rhan o weithgareddau Dathlu Gŵyl Dewi Caerfyrddin 2019. Y ddau Feuryn oedd Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood.

Roedd timau Ffostrasol, y Priordy a'r Ysgol Farddol yn cymryd rhan. Bu'n gystadleuaeth lem a chyflawnodd pob tim yn dda. Ffostrasol a ddaeth i'r brig o drwch blewyn!

A dyma gynnwch y Priordy i chi gael ei fwynhau a diolch i'r beirdd amdanynt, sef Beti-Wyn James, Aled Evans, Peter Hughes Griffiths ac Elinor Wyn Reynolds.

Roedd gofyn i'r timau gyfansoddi cwpled caeth, pennill ymson, cân ysgafn ac englyn. Enillodd y Priordy farciau llawn am y gân ysgafn a'r cywydd!

Diolch am noson mor hwyliog ac yn arbennig i Peter Hughes Griffiths am drefnu.

Cwpledcaeth ar yr odl ‘arth’

Un nos Sul mi welais arth
Yn canu ar bont Cenarth!

Beti-Wyn James



Pennill ymson unrhyw wleidydd

Ymson Gwleidydd

Rwy’n gwybod yn well na’r rhelyw
rwy’n gwybod yn well na chi
am y pethau sy’n lles i’r wladwriaeth,
pob deddf a pholisi.

Dwi’n gallu siarad am oriau,
yn joio clywed fy llais fy hun,
mae’n well na sex, well na Brexit,
fi yw’r lean-mean-gwleidydd-mashîn.

Es i mewn i fyd gwleidyddiaeth
er mwyn eirol dros gyfiawnder,
i helpu pobol dlawd a gwan,
ond aeth y cynllun hwnnw’n ofer.

A nawr dwi mewn cyfyng gyngor
aeth hi rhwng y cŵn a’r brain –
mae meddwl am bobl eraill,
’blaw fy hun, yn dipyn o wasgfa a straen.

Y gwir yw, mae pris ar bopeth
sdim byd heb ei werth, cewch chi weld,
fe wertha i’r tipyn wlad ’ma yn rhad,
fel rhyw gwpwrdd ail-law neu hen seld.

Fi oedd meistr yr araith ddifyrrus
llawn ffraethineb a hwyl anghyffredin,
heddiw, mae’r punchlines i gyd yn stêl,
wy’n jôc ond does neb yn chwerthin.

Erbyn hyn mae 'nghynllun i'n deilchion
a dwi chydig bach ar goll,
roedd gen i egwyddorion
ond fe'u gwerthwyd nhw un ac oll.

Mae'r byd 'ma â'i ben i waered
a phopeth nawr ar sgiw
ond peidiwch gofyn am atebion
does gennyf i, o bawb, ddim cliw.



Elinor Wyn Reynolds

Limrig yn cynnwys y linell 'Ni allaf ail adrodd y geiriau'

Ni allaf ail adrodd y geiriau
O glod gaf wrth ateb y tasgau.
Ac eto'r tro hwn
I'r Meuryn mi wn
Taw'n limrig gwych i fydd y gorau.



Peter Hughes Griffiths

Cân ysgafn heb fod dros 20 llinell 'Alecsa':

Alecsa

Rwyf wrthi yn Talyrna ers trigen mlynedd siŵr,
Ond dyma'r dasg anodda' wynebodd unrhyw ŵr!
Can Ysgafn ar 'Alecsa' – sa chi na fi ddim cliw
Beth yw shwd beth a hwnnw – ma pawb yn gweud 'Jiw,Jiw'.
Es ati do i ofyn i 'google mail.com –
'Beth yffach yw 'Alecsa'? – a wir fe ges i siom
Pan wedodd hwnnw wrthai mai menyw glyfar oedd
Yn barod iawn i siarad a rhoddi ambell floedd,
A bod hi'n byw mewn dishgil yn hapus yn y tŷ
Ond ichi switsho'i arno mae'n troi yn eitha hy.
Parablu a brogowthan, atebion i bob peth,
Mae'n gwbod hanes pob un, a hynny'n fawr o dreth.
Atebith unrhyw gwestiwn, fe wedith hi ei barn,
Mae'n fenyw holl wybodus mewn potyn bach un darn.

Fe allwch chi ei phrynu ar Amazon siŵr iawn,
Fe ddaw mewn fan i'ch catre cyn diwedd y prynhawn.
Ond wedyn bydd rhaid talu yn ddrud am un fel hon,
Fe allith gostio ichi hyd at rhyw dri chant bron!
Pam ddylsen hala'n arian ar 'Wonder Woman' ffri?
Mae un sy'n well na'Alecsa yn barod yn tŷ ni.

Peter Hughes Griffiths



Cywydd Cuddio

Rho i'm iaith yr oriau mân,
ennyd i mi fy hunan
i rifo awr arafach
a dal byd yn dawel bach.
Rho i'm awr mewn storm eira
a thro'r haul yn llethrau iâ,
i gau y gwynt yn ei gell
a gollwng llafn ei gyllell.
Rho i'm oed wrth donnau'r môr,
rho ras i mi yn drysor.
Ga'i orig heb sŵn geiriau,
dim ond cydio dwylo dau.
A ga'i ffoi o olwg ffin,
a heria daith pererin,
a byw heb ôl yn y byd
na hanes am un funud.



Aled Evans

Englyn: 'Atgyweirio'

Tro'r awel uwch yr heli i ennyn
y fynwes sy'n oeri,
dod adenydd o dani
yn dyner i'w hadfer hi.



Aled Evans

NODWCH Y DYDDIAD!

ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN yn cyflwyno:

GŴYL Y SUL SBESIAL

Yn Yr
EGIN

14 GORFFENNAF
2.00-3.30



IOLA WYN
yn holi
EMYR LEWIS
am ei ffydd
Gristnogol

Cyflwyniad gan **MELERI CRAY**
Pennaeth Cymdeithas y Beibl, Cymru



RHODRI DARCY
yn arwain sesiwn
i'r bobol ifanc:
FFILMIO a GOLYGU
yn y caffi seiber
(dewch â'ch cluniadur)



NIGEL DAVIES â Bwrlwm Bro i'r plant

Bydd cyfle i brynu te, coffi neu ddiod feddal a chacennau o'r caffi – a chael clonc!

Croeso Cynnes i bawb. Dewch i fwynhau!

Tudur Dylan Jones.....

Siân a Guto Prys ap Gwynfor Cymdeithas y Cymod

Nos Lun, 2 Chwefror 2019

DAETH llond ystafell i wrando ar Siân a Guto Prys ap Gwynfor yn trafod eu hymwneud gydag ymgyrchoedd heddwch ers dros hanner canrif erbyn hyn.



Clywsom y ddau yn dweud beth oedd eu rhesymau dros ymgyrchu dros heddwch. Aeth Siân â ni nôl i'w dyddiau ysgol a sylweddoli bod ymladd dros gyfiawnder ymhob maes yn rhywbeth oedd yn cydio yn ei chalon. John Donne ddywedodd nad oes un person yn ynys. Dyfyniad arall a'i hysbrydolodd oedd 'Pan fo un yn dioddef mae'n effeithio ar y cyfan oll.' Yn yr ysbryd hwn y teimlodd Siân ap Gwynfor y dylai hi fod yn ymuno gyda gwragedd eraill yng Nghomin Greenham. Soniodd am y gymdeithas hynod o ferched a safai'n ddewr yn erbyn pob math o fygythiadau, a gwneud hynny gan aberthu llawer. Dechreuodd y daith o Gaerdydd i Gomin Greenham ar Fedi 5ed 1981, ac er nad oedd hynny'n fwiad ar y pryd, parhaodd y brotest am tua ugain mlynedd. Tynnwyd sylw'r byd at yr arfau lladd a oedd yn cael eu cadw yno, a'r hyn a nodwedda'r ymgyrch oedd natur heddychlon y merched, yn sefyll yn gadarn yn erbyn pob math o drais.

Yn aml, byddai symbolau arwyddocaol yn cael eu gosod ar y ffens, enfys yn symbol o heddwch, a byddai cennin Pedr yn cael eu gosod ar Fawrth y cyntaf.

Braf oedd cael cwmni rhieni Helen Thomas yn y cyfarfod yng Nghaerfyrddin. Ymunodd Helen â'r brotest i ddangos ei hochr ac i gefnogi heddwch. Fe laddwyd Helen gan un o gerbydau'r heddlu, ac fe gofir o hyd yn dyner amdani.

Yn nes adref, soniodd Guto am yr ymgyrch yn erbyn adeiladu'r byncher niwclear o dan faes parcio cyngor dosbarth Caerfyrddin yn y dref. Dangoswyd cyfoeth o luniau am y gwahanol ymgyrchoedd a soniodd sut oedd y dynion diogelwch yn ymddwyn yn ffiaidd ac yn greulon tuag at y rhai a oedd yn protestion'n heddychlon.

Soniwyd hefyd am y brotest ym Mreudeth ac yn Epynt yn erbyn y militareiddio sy'n digwydd yng Nghymru.

DIOLCH am bobl fel Guto a Siân ap Gwynfor sy'n parhau i godi llais ac i weithredu. Yr hyn oedd yn drawiadol yn y lluniau oedd ei bod yn amlwg fod nifer o'r protestwyr cynnar wedi ein gadael ni bellach, a hyn yn gwneud i ni sylweddoli pa mor bwysig yw ein bod ni'n codi cenhedlaeth newydd o rai sy'n fodlon dweud eu barn a sefyll dros heddwch.



CWMNI MYRDDIN

yn cyflwyno

DAU HANNER

BRAWD

gan

Nan Lewis ac Eric Jones

Theatr Mwldan Aberteifi

Nos Sadwrn 5 Mai 2019 am 7

Tocynnau: £12 ar gael gan Theatr Mwldan ☎01239 621200



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

Dydd Sadwrn 23 Mawrth 2019 - 10 tan 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg

GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN

Bore Gwener – 12 Ebrill 2019 – 11 o'r gloch

gyda'n

Gweinidog

Croeso i bawb



Cwrdd Chwiorydd

**Cynhelir Cwrdd Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin ar
Nos Fawrth, 30 Ebrill 2019 am 7.30 yn Festri Heol Awst**

RHAGHYSBYSIAD

GŴYL MAWL MEDI

Dydd Sul 29 Medi 2019 – Y Priordy

**Yn y bore am 10
Hwyl Mawl Medi
gyda'r
Plant a'r Bobl Ifainc
Arweinydd
Rhys Griffiths
a
Band y Priordy**

**Yn yr hwyr am 5
Cymanfa Ganu
Arweinydd
Rhys Griffiths
Eitem
gan
Gôr Meibion
Caerfyrddin**

TUDALEN BLAEN

Rheswm y Dr Myfanwy Jones dros ddewis *Rho im yr hedd....*

Pan o'n i tua 14 oed, fe ymunais â Chwmni Ieuentid Ceredigion, sef cwmni drama i bobl ifanc oedd yn cwrdd yn Felin-fach.

Clwb ieuentid oedd **CIC** fwy neu lai, ble roeddwn i'n cael cyfle i gymdeithasu yn Gymraeg gyda phobl ifanc o bob cwr o'r sir.



Dyma ble darganfyddais i gerddoriaeth Edward H am y tro cyntaf a hefyd yr emyn hwn! Roeddwn ni'n ymarfer drama'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r golled ofnadwy o fywydau ifanc. Canon ni'r emyn yma ar adeg dirdynol yn y ddrama, pan oedd milwr ifanc yn wynebu marw yn y ffosydd.



Mae'r cyfuniad o'r geiriau a'r dôn byth ers hynny wedi fy nharo - tristwch ofnadwy o wynebu marwolaeth ochr yn ochr â'r tawelwch meddwl sy'n deillio o ffydd gadarn y bydd marwolaeth yn golygu bod ym mhresenoldeb Duw. Mae'r syniad o lonyddwch, a dianc o greulondeb y byd yn apelio yng nghanol y tristwch.



Erbyn hyn, mae'r emyn yn atseinio cyfyng-gyngor mewnol ynnof i hefyd, lle mae rhywun yn dewis byw bywyd byrlymus, prysur, cyffrous ond ar yr un pryd yn ysu am fywyd mwy syml, mwy ysbrydol a llai blinderus.

Mewn ffordd, dyna yw un o bleserau mawr mynychu'r capel i mi -; cael ennyd o lonyddwch, awr o ailgysylltu â'r ysbrydol, 'yr hedd na wŷr y byd amdano', yng nghanol prysurdeb gwallgof fy mywyd i,a'n byd ni.



Annwyl Gefnogwyr

Parthed: Apêl Nadolig Cyngor Sir Gâr

Ysgrifennaf i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniad a'ch cefnogaeth tuag at Apêl Nadolig Cyngor Sir Gâr 2018. O ganlyniad i'ch haelioni chi ac eraill llwyddwyd i ddarparu 207 o hamperi bwyd a 150 o becynnau lles i bobl ifanc a theuluoedd yn ogystal â dros 6,000 o deganau i dros 1,000 o blant a oedd mewn angen dros adeg y Nadolig. 'Roedd yr ymateb i'r galw am deganau ychwanegol yn dilyn cynnydd sylweddol mewn enwebiadau yn anhygoel ac yn brawf o garedigrwydd a haelioni trigolion Sir Gâr. Bydd trefniadau Apêl 2019 yn cychwyn yn fuan a gobeithiwn y bydd eich cefnogaeth yn parhau. Unwaith eto diolch o galon am eich cyfraniad.

Yn gywir

Cynghorydd Mair Stephens

Dirprwy Arweinydd

Nia Thomas

Rheolwr Systemau Addysg

Llythyr a dderbyniodd ein Gweinidog yn ddiweddar

APÊL MIS MAWRTH



www.worlddownsyndromeday.org

Mae Erin, a'i rhieni Carwyn a Non yn aelodau pwysig o deulu'r Priordy. Mae Erin yn dioddef o Syndrom Down, ac yn byw bywyd llawn a llawen. Cyflwr genetig yw Syndrom

Down a achosir gan gromosom ychwanegol. Mae unigolyn â Syndrom Down yn etifeddu cromosom 21 ychwanegol ac felly mae ganddo 47 cromosom yn lle'r 46 arferol.

Mae 21 Mawrth yn ddiwrnod Cenedlaethol Syndrom Down a bydd Cymdeithas Syndrom Down yn gwerthu sanau arbennig i'w gwisgo ar y diwrnod hwnnw i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr.

Fel Apêl y Mis, byddwn fel eglwys yn cefnogi Erin a'i theulu drwy werthu'r sanau yn Y Priordy ar Ddydd Sul, 10 Mawrth Pris £4. Felly, plis dewch â £4 i'r cwrdd ar y bore hwnnw, os gwelwch yn dda. Mae Sanau Oedolion a Phlant ar gael.

Diolch i Non am fy helpu i drefnu hyn!
Beti-Wyn

Am fwy o fanylion am y gwaith

<https://www.downs-syndrome.org.uk/about/campaigns/world=downs-syndrome-day>



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 28 MAWRTH 2019


Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



DADORCHUDDIO PLAC

Bydd plac glas i anrhydeddu Delme Thomas yn cael ei ddadorchuddio gan Gymdeithas yr Hoelion Wyth, ar sgwâr pentref Bancyfelin ar nos Wener, 5 Ebrill 2019. Amser a threfn y noson i'w cadarnhau. Croeso i bawb.





DATHLU'R PASG



Y TABERNACL, CAERFYRDDIN

NOS IAU CABLYD

18 Ebrill 2019

7.00pm

OEDFA GYMUN

Y PARCHEDIG

PETER CUTTS

Caerfyrddin

DYDD GWENER Y GROGLITH

19 Ebrill 2019

10.00am (yn unig)

OEDFA BREGETHU

Y PARCHEDIG

JOHN TALFRYN JONES

Rhydaman

TAITH GERDDED Y PASG - CYTÛN

Dydd Gwener 19 Ebrill 2019 - 12 o'r gloch, gan ddechrau o'r Capel Wesle lle bydd paned ar gael ymlaen llaw

CARIO'R GROES I BEN BRYN MYRDDIN

Prynhawn Gwener y Grogolith, 19 Ebrill 2019

Gadael Maes Parcio Canolfan Bryn Myrddin am 2.30 wedi gair o weddi a chario'r groes i ben y bryn. Oedfa ar ben y bryn am 3 o'r gloch a phaned a chacen (£3)

yng Nghanolfan Bryn Myrddin i ddilyn

Croeso i bawb o bob oed

Gwisgwch esgidiau synhwyrol

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

yn cyflwyno

MERCHED CAERDYDD

gan

Catrin Dafydd

a

NOS SADWRN O HYD


gan

Roger Williams

Nos Lun a Nos Fawrth 1 a 2 Ebrill 2019 am 7.30

Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin

 **01267 611600**





DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Mawrth		Ebrill	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Wyn Evans	Alun Charles	Wyn Evans



BLODAU



Mawrth	3	Mair Meredith	Ebrill	7	
	10			14	Meinir Hughes Griffiths
	17	Eira Phillips		21	
	24			28	Bronwen Wilkins
	31	Nansi Hayes			



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Mawrth	3	Bore	Rhian Pritchard-Franklin a Rachel Davies
Ebrill (Pasg)	21	Bore	Catrin Heledd Jones a Jayne Jones



YMWELWYR



Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones Henry a Bronwen Wilkins
-----------------	---



DARLLENWYR



Mawrth	3	Elen Marks	Ebrill	7	Mari Jenkins
	10	PIP		14	
	17	Chris Lloyd		21	Miriam Wyrwoll
	24	Jayne Woods		28	Peter H Griffiths
	31	Mamau			



CYHOEDDWYR



Mawrth	Philip Jones	Ebrill	Chris Lloyd
--------	--------------	--------	-------------

COFIWCH AM Y BLYCHAU STAMPIAU A BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD



LLONGYFARCHIADAU i Catrin a Rhydian Evans ar enedigaeth Martha Nel ar 8 Chwefror 2019 yn Ysbyty Glangwili. Chwaer fach i Greta Fflur ac ail wyres i Tudur Dylan ac Enid Jones. Pob dymuniad da i'r teulu bach.



Llongyfarchiadau i June Thomas ar ddod yn fam-gu eto. Ganed merch fach, Anest Gwenllian, i Betsan ac Aled Jones yn ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd ar 9 Chwefror 2019 a chwaer fach i Heledd Mair. Ein dymuniadau gorau i'r teulu.

A'r un llongyfarchiadau i Elaine Davies ar ddod yn nain. Ganed bachgen i Peter a Sara, sef Cadel Rhys ar 19 Chwefror 2019 yng Nghaerffili a brawd i Tirion. Pob dymuniad da iddynt i gyd.

Ac mae'r llongyfarchion yn parhau! Dathlodd Victor Jones ei ben-blwydd yn 100 oed ar 2 Mawrth 2019. Da clywed ei fod mewn hwyliau da ac rydym i gyd yn y Priordy'n anfon ein cofion cynnes iawn ato. Bydd llun yn ein rhifyn nesaf!

Un arall a fu'n dathlu'i ben-blwydd yn ddiweddar oedd Ahmed (Tŷ Capel), a bu plant yr Ysgol Sul yn paratoi cardiau pen-blwydd iddo. Gweler y llun yn y Papur hwn.

Daeth llwyddiant i Steffan Jones, un o'n pobl ifainc pan gipiodd y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Y dasg oedd creu unrhyw ddarn o waith creadigol, a theitl stori fer Steffan oedd *Dial*. Ardderchog yn wir!



Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef, David Lloyd, Margaret Jones (sydd bellach yng Nghartref Dol-y-felin, Sanclêr), Huw Morgan (Cartref Cynnes) ac Ahmed (Tŷ Capel). Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Bu rhai o'n haelodau yn helpu i gasglu at **Cymorth Cristnogol** yn **Tesco** yn ddiweddar a diolch i Eirlys Jones a Rhian Evans am drefnu rota'r Priordy.



Agorwyd Pili Pala, sef ystafell benodol ar gyfer teuluoedd sy'n galaru wedi colli baban yn Ysbyty Glangwili'n ddiweddar a bu dau o'n haelodau'n amlwg yn yr ymgyrch i'w chael, sef Heledd Tomos a Non Edwards. Cawn glywed mwy ganddynt am hyn yn ein rhifyn nesaf,

Bu Peter Hughes Griffiths, fel yr aelod dros Ddiwylliant, Chwaraein a

Thwristiaeth ar Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gâr yn flaengar yn yr ymgyrch a welodd sefydlu ar Ddydd Miwsig Cymru (8 Chwefror) system ffrydio cerddoriaeth ddwyieithog newydd a fydd yn cael ei chwarae mewn nifer o lefydd cyhoeddus ledled y sir drwy gydol blwyddyn gan roi cyfle i bawb fwynhau cerddoriaeth sy'n adlewyrchu'n cymuned.



Bu'r Dr Huw Michael ar raglen y **Post Cyntaf** ar **Radio Cymru** yn trafod cyhoeddiad OFGEM (Corff Rheoleiddio Marchnata Nwy a Thrydan) eu bod wedi adolygu'r uchafbris ('cap') ar brisiau nwy a thrydan yn sgil y cynnydd ym mhrisiau'r farchnad cyfanwerthol - hyn yn golygu cynnydd o tua 10% o Ebrill ymlaen i gwsmeriaid sy'n talu'r pris safonol. Hefyd, bu ar **Newyddion 9** ar **S4C** yn rhoi sylwadau ar gostau trydan o berci solar, yng nghyswllt cais i adeiladu parc solar enfawr ar Ynys Môn.



Un a fu'n cymryd rhan yn y drafodaeth am wasanaeth CYNNAL, elusen sy'n cynnal sesiynau cwnsela ar draws Cymru ar ran yr eglwysi i helpu gweinidogion, clergigwyr a'u teuluoedd oedd Beti-Wyn a hynny ar **Taro Post** ar **Radio Cymru**.



A GWESTAI ar **Heno** ar **S4C** un noson oedd Fflur Dafydd a'r sgwrs yn troi o gwmpas y gyfres hynod o gyffrous a llwyddiannus **35 Awr** a luniwyd ganddi. A chafwyd cyfle hefyd i holi'r awdures, ymhlith eraill, yn **Yr Egin** ar ôl gweld y bennod olaf yno pan gafodd y cyfan ei ddatgelu.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Henry a Bronwen Wilkins ar golli cefnder Henry, sef Islwyn Thomas (Islwyn y Fet) a fu farw yng Nghaerdydd ar 12 Ionawr 2019. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Ein cydymdeimlad hefyd ag Emyr ac Eleri Thomas a Jac ar golli ewythr Eleri, sef Lloyd Harries ar 24 Ionawr 2019 yn Taunton, Meddyliwn am y merched a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones, Dr Huw Michael a'r Dr Llinos Roberts am y lluniau'r mis hwn



Beth am droi at: cyfundeib.com?



Y SULLIADUR



Mawrth	3	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	10	Bore	Cwrdd yng ngofal PIP (Pobl Ifainc y Priordy) a'n Gweinidog	
	17	Bore P'nawn	Y Parchedig Guto Llywelyn Oedfa i'r Ofalaeth am 2 ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Guto Llywelyn	
	24	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Perfformiad o Groeshoeliad John Stainer am 6 <i>Manylion y tu mewn</i>	
	31	Bore	Oedfa Deulu ar Sul y Mamau gyda'n Gweinidog <i>Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg</i>	

Ebrill	7	Bore Nos	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	
Sul y Blodau	14	Bore	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	
Sul y Pasg	21	Bore P'nawn	Oedfa i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Priordy Cwrdd i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancyfelin am 3	Cymun
	28	Bore P'nawn	Y Parchedig Meirion Morris Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Meirion Morris	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul OD – Oedfa Deulu CP – Cwrdd Plant a Phobl Ifainc								
Mawrth					Ebrill			
3	10	17	24	31	7	14	21	28
-	✓	✓	✓	OD	✓	CP	-	-

Y GYMDEITHAS	
Nos Lun 4 Mawrth 2019	Dathlu Gŵyl Dewi
Nos Lun 8 Ebrill 2019	Ymweliad â'r Mosg Swper yn y Llwyn Iorwg